

AI DINISTR YW DYFODOL Y BYD?

Nodyn i'r siaradwr:

Ceisia feithrin hyder y bydd Jehofa yn gweithredu'n fuan i ryddhau dynolryw o'u dioddefaint. Rho bwyslais ar beth sydd rhaid inni ei wneud i sicrhau ein bod ni'n goroesi

MAE GAN LAWER OFN DYFODOL Y BYD (4 mun.)

Heddiw, yn fwy nag erioed, mae'n ymddangos bod dyfodol dynolryw mewn perygl oherwydd eu gweithredoedd

Mae newid hinsawdd fyd-eang, a'r bygythiad o ryfel niwclear yn rhoi dyfodol dynolryw yn y fantol (*w10-E 8/1 3-4*)

Mae problemau economaidd, trais ffaidd, a chlefydau ledled y byd yn dangos mor ansefydlog yw'r system hon (*g05-E 8/8 4-7; g03-E 5/22 6-11*)

Ai dinistr yw dyfodol y byd? Ie, ond nid fel y mae llawer yn ei ddisgwyl

Mae'r Beibl yn defnyddio'r ymadrodd "y byd" i gyfeirio at ddynolryw ar y cyfan yn ogystal â'r gymdeithas ddynol sydd yn erbyn Duw (*it-2-E 1210 ¶1*)

Er bod llawer yn pryderu bod dynolryw am farw allan, ni fydd Duw yn caniatáu i hyn ddigwydd nac yn ei achosi

MAE DUW YN YMWBODOL O DDIODDEFAINT DYNOLRYW (5 mun.)

Mae Jehofa yn gwybod yn iawn fod cyflwr dynolryw yn gwaethygu (Sal 11:4; Dia 15:3)

Bydd y rhai cyfrifol yn atebol i Dduw (Sal 37:37, 38)

Pam mae Duw wedi caniatáu i broblemau'r byd fynd mor eithafol o ddrwg?

Yng ngardd Eden, gwnaeth Satan fwrw amheuaeth ar ffordd Duw o reoli (*w07-E 9/15 4-7*)

Mae Duw wedi caniatáu i gyflwr y byd gyrraedd y man lle na all neb honni'n gywir bod llywodraeth sy'n annibynnol ar Dduw yn gallu llwyddo (Jer 10:23)

Mae cyflwr y byd heddiw yn rhoi digonedd o dystiolaeth bod Satan wedi dweud celwydd pan daflodd amheun ar ffordd Duw o reoli

Mae'r rhai sy'n dyheu am waredigaeth yn pendroni am bryd a sut mae Duw am weithredu (Hab 1:2, 3)

SUT BYDD DUW YN DINISTRIO'R BYD HWN? (8 mun.)

Mi fydd Jehofa yn dinistrio'r byd drwg hwn

Bydd Duw yn gweithredu i achub "pobl dduwiol" ond bydd yn cael gwared ar y gymdeithas o fodau dynol drygionus, fel y gwnaeth yn ystod dyddiau Noa (2Pe 2:5, 9)

Mae'r Beibl yn cynnwys proffwydoliaethau eglur sy'n disgrifio "dydd yr ARGLWYDD" [**Darllena Joel 2:11, 31**]

Mae'r ymadrodd "dydd yr ARGLWYDD," yn cyfeirio at gyfnod dinistriol, pan fydd Jehofa yn gweithredu ei farn yn erbyn y rhai sydd yn ei wrthwynebu, ac yn achub y rhai sydd yn ei garu (*it-1-E 594-595*)

Digwyddodd 'dyddiau' tebyg yn y gorffennol (*w07-E 12/15 11 ¶2*)

Mae'r 'dyddiau' hynny yn dangos bod Jehofa wedi gweld problemau ar y ddaear a'i fod wedi gweithredu

Yn y dyfodol, bydd Jehofa yn anfon byddin nefol, o dan arweiniad Iesu Grist, i ddinistrio'r byd drwg hwn (Dat 19:11-16; *w14-E 2/15 6-7 ¶15-16*)

Ydy "dydd yr ARGLWYDD" yn agosáu?

PRYD Y BYDD DUW YN DINISTRIO'R BYD HWN? (8 mun.)

Roedd yr apostol Pedr wedi cymhwysu'r broffwydoliaeth yn Joel 2:28-32 i'r "cyfnod olaf" o'i ddyddiau ef [**Darllena Actau 2:16-21**]

Ar yr adeg honno roedd ddisgyblion Iesu yn gallu siarad ieithoedd gwahanol, trwy wyrth yr ysbryd glân (Ac 2:4-11)

Mae proffwydoliaeth Joel hefyd yn cael ei chyflawni yn nyddiau olaf y system hon

Mae'r ffaith bod Jehofa yn mynd i gasglu pobl o'r "cenhedloedd i gyd" yn dangos bod dydd Jehofa yn mynd i effeithio ar y byd cyfan (Joe 3:2)

Fel mae Joel 2:28, 29 wedi proffwydo, mae ysbryd Duw wedi galluogi i'r newyddion am ddydd Jehofa gael ei gyhoeddi trwy'r byd i gyd

Mae dau gyflawniad hefyd i broffwydoliaeth Iesu ynglŷn â "diwedd y byd" (Mth 24:3)

Cafodd rhan o broffwydoliaeth Iesu ei chyflawni yn nyddiau olaf Jerwsalem, ac mae hefyd yn cael ei chyflawni yn fyd-eang heddiw ar y byd drwg hwn

Mae geiriau Iesu yn Mathew 24:29, yn debyg i eiriau Joel 2:31, sydd yn cysylltu proffwydoliaeth Iesu gyda dyfodiad dydd Jehofa

Mae'r arwydd a roddodd Iesu, sydd yn cynnwys y gwaith pregethu, yn cael ei weld ledled y byd. Mae hyn yn dangos bod dydd Jehofa yn agos iawn (Mth 24:7-14)

GELLI DI OROESI DINISTR Y BYD HWN (5 mun.)

Bydd "dydd yr ARGLWYDD" yn annisgwyl i lawer, er gwaethaf rhybuddion eglur y Beibl a'r gwaith pregethu sy'n cael ei wneud gan Dystion Jehofa byd eang (2Pe 3:10)

Nawr yw'r amser i baratoi am ddydd Jehofa drwy alw ar ei enw [**Darllena Joel 2:32**] (*jd-E 187 ¶19*)

Rhaid parhau i fodloni gofynion Jehofa er mwyn goroesi (Seff 2:2, 3; *w01-E 2/15 17-19 ¶3-8*)

Gall y rhai sydd yn gwneud hyn fod yn sicr y bydd Duw yn eu hamddiffyn pan fydd yn dinistrio'r byd drwg hwn (Joe 3:16)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodir ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169, a'r llyfryn *Darllen a Dysgu*, gwersi 4, 6, 8, 13, 14, 19]

Rhif 150-W—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2018 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania